// Y DINESYDD

PAPUR CYMRAEG CAERDYDD | MEHEFIN 1975 | RHIF 21

# MYND YN ÔL AR ADDEWID

Er i nifer o gymdeithasau rhieni Ysgolion Cymraeg ac Unedau Dwyieithog De Morgannwg dderbyn addewid yr agorid Ysgol Uwchradd Ddwyieithog yn y Sir yn 1976, nid yw'n ymddangos y cyflawnir yr addewid hyd tua 1980 - oni ellir dwyn pwysau ar y Pwyllgor Addysg o du rhieni a chymdeithasau Cymraeg y ddinas.

Byddai agor Ysgol Uwchradd Ddwyieithog yn gyson a pholisi addysg ieithyddol newydd De Morgannwg. Polisi sy'n deillio o ymateb rhyfeddol o ffafriol Dinas Caerdydd i holiadur rhyw dair blynedd yn ôl. Yn annisgwyl, dangoswyd bod mwyafrif y rhieni am gael mwy o addysg Gymraeg, a nifer dda am gael addysg ddwyieithog. Erbyn hyn mae yna dair ysgol gynradd Gymraeg yn Ne Morgannwg gyda dros chwe chant o blant, a pedair o unedau dwyieithog, gyda thua cant o blant. Ym Medi eleni fe agorir o leiaf ddwy o unedau dwyieithog newydd. Ym Medi hefyd fe aiff nifer o blant o Uned Ddwyieithog Heol Llanisien Fach i Ysgol Uwchradd Ddwyieithog Llanharri. Roedd mwy o blant o'r uned hon am gael mynd petai Ysgol Uwchradd o'r fath ar gael yn Ne Morgannwg.

## ADEILADAU GWAG

Wrth orffen yn ei swydd fel Cyfarwyddwr Addysg Caerdydd, dywedodd Mr. Mackay y byddai nifer o adeiladau Ysgolion Uwchradd yn dod yn wag yn y blynyddoedd hyn. Yn un o'r rhain y rhagwelai ef y sefydlid yr Ysgol Uwchradd Ddwyieithog.

Mae polisi iaith iach gan Dde Morgannwg ond i lwyddo i droi pobl yn Gymry Cymraeg o wirfodd, a chyda cefnogaeth eu rhieni, rhaid wrth gyfundrefn o addysg Gymraeg a dwyieithog o'r Ysgol Feithrin hyd at y coleg. Yr elfen uwchradd sy'n brin ar hyn o bryd, ac fe lesteirir y symudiad i gael pobl gyffredin di-Gymraeg Caerdydd a'r cylch i anfon eu plant i gael addysg ddwyieithog oherwydd y gwelant y bydd raid i'w plant deithio tu allan i'r ardal i ysgol Uwchradd. Diau fod hynny'n bris bach am addysg dda a chymwys, ond dim ond y rhai sy wedi eu hachub a wel hynny. A rhaid ennill y rhelyw os ydym am achub yr iaith, a gadael i'n diwylliant arbennig gyfoethogi bywyd mwyafrif ein dinasyddion.

## RHAID PWYSO

Bydd raid pwyso ar y Cyngor, y Pwyllgor Addysg a'r Swyddfa Addysg fel unigolion a fel cymdeithasau. Anfoned pob capel ac eglwys, esgob a Llywydd Cymanfa, Clwb Rygbi a Llen, at yr awdurdodau i fynnu Ysgol Uwchradd Ddwyieithog ar fyrder.

Nid y geiniog yw diwedd pob cân; does dim angen adeiladau newydd, ac nid plant newydd fydd y rhai a aiff i'r Ysgol ond plant y bydd raid i Dde Morgannwg gynnig addysg iddynt beth bynnag - yn enwedig gan fod Morgannwg Ganol angen pob lle yn eu hysgolion nhw i blant o'r sir honno.

Gohebydd Arbennig.



*Cafodd plant Ysgol Gynradd Heol y Celyn lwyddiant ysgubol yn yr Urdd yn Llanelli. Dyma'r grwp a enillodd ar gymnasteg. Mwy o luniau ar y dudalen ôl.*

# CHWYSWCH
## *yn Gymraeg*

Os ydych yn ddyn, yn Gymro Cymraeg neu'n ddysgwr, rhywle o gwmpas y deugain oed ac yn boenus ynghylch eich ffitrwydd a'ch pwysau, yna manteisiwch ar y dosbarth sydd wedi ei drefnu ar eich cyfer yng Nghanolfan Addysg Radyr yn ystod y gaeaf nesa'. Cynhelir y dosbarth ar nos Lun a cewch ymarfer corff a chwarae bob math o gemau er mwyn ceisio gwella eich cyflwr.

Dim ond ugain gaiff ymuno yn anffodus felly 'y cyntaf i'r gym gaiff chwysu'. Chwi wragedd sy'n ymboeni am gyflwr echrydus eich gwŷr ac maent i'w gweld ym mhob sefydliad gorfodwch hwynt i ffonio Lloyd Evans, 564794 yn syth.

# I'R DYSGWYR

Stori Fer ar unrhyw destun.

Beirniad Mr Illtyd Lewis.

Gwobrau o docynnau llyfrau yn rhodd gan Mr Leighton Davies, 18 Westville Road, Penylan. £10, £5, £2.50 a £1

Anfoner y cyfansoddiadau at Y Golygydd, 44 Heol y Nant, Rhiwbeina, erbyn Gorffennaf 7fed, gan nodi enw'r ymgeisydd ynghyd a ffugenw. Cyhoeddir enwau'r buddugwyr yn rhifyn Medi o'r Dinesydd a bwriedir cyhoeddi'r straeon yn ogystal.

# POBL YR YMYLON

## Llwyn Llwyd

Mae gweld trampyn yn codi oddi ar ei fainc ac yn ymestyn at yr haul ar fore heulog yn ychwanegu at werth llygedyn o olau heb sôn am godi cywilydd ar y sawl sy'n cario ei blwy a'i ofid ar ei gefen.

Ar y ciltyn glas ar waelod yr Hayes rhwng tŷ Mr Coral y bwci a'r Greyhound y mae'r awyr lasa, ac os na chwyd ehedydd, fe gwyd aroglau tynera'r byd o farlys y bragdy y tu ôl i'r Tabernacl. Pwy a omedd i gerddwyr yr hewl dipyn o wres, arogl barlys a thorheulo. Eled pob rhyw bwysigyn a phob rhyw awdurdod i grafu, ac fe gadwith y tywydd teg bytiau ffags y pafin yn sych.

"I am on the bloody road mate", meddai un sydd wedi hen ymgynefino â chered yn waglaw. Mae'n falch o'i benderfyniad, debygwn i, ar waethaf ei ddisgrifiad o'r hewl sydd wedi ei hen drechu a'i hawlio.

Mae hwn yn chwerthin am ben traed dolurus y llall ac yn honni iddo wrthod gwerthu'r "Morning Star" oherwydd bod ganddo egwyddorion a chydwybod. Dim ond gwrando, ac fe gewch chi wers ar sut mae byw'n gall, arbed pres, osgoi maglau, cysgu mas a pheidio cynhenna.

"Pop speaks Gaelic", meddai Gwyddel pengoch. Mae meddu dwy iaith yn gaffaeliad hyd yn oed wrth swentan a sgwlcan o un pafin i'r llall. Cymro Cymraeg, mewn cot fawr ddu haf a gaeaf yw Pop ac fe roddai'r byd am gael lifft i ben yr Wyddfa, medde fe, "er mwyn cael poeri o'r grib i ddangos be dw i'n feddwl o'r cachwrs. Dim ond cal y gwynt o'r cyfeiriad iawn ac fe since poerad baco morwrs gwch byddigions ar y Menai Strait."

Bydd byw ar drugaredd hwn a'r llall yn hawlio dogn helaeth o brofiad, pengaledi ar brydiau, dyfeisgarwch dro arall a thafod teg mor aml â pheidio. Peidied neb er hynny â phoeni'n ormodol, gwŷr proffesiynol yw'r rhain, ac unwaith y daw cawod neu chwythwm, fe fyddant o dan do'r ystafell ddarllen yn ymgiprys â'i gilydd yn fanno am leoedd manteisiol ac yn betio matsys ar bwy gaiff ei daflu allan gynta am gysgu a dryflo ar y bwrdd.

Pwy sy'n sgyfflan dros y "Financial Times"? Pwy sy'n defnyddio'r "Financial Times" fel gobennydd a phwy roddodd yr "Investor's Chronicle" yn ei boced? Pwy sy'n od, pwy sy'n ddwl, pwy sydd ar goll? Mae'n anodd gwybod a phan ddaw'r haul mas, mae hi'n anos fyth bod yn hollol siŵr.

## *LLYTHYR*

*Yr Adran Gymraeg*
*Coleg Llanymddyfri*

*8fed o Fai, 1975*

*BARCHUS OLYGYDD,*

*A gaf i apelio trwy gyfrwng eich colofn lythyron, am ôl-rifyn o'r* Dinesydd, *sef yr unfed rifyn ar ddeg. Mae'r bwlch yn y casgliad yn peri poen a gofid i mi. Byddwn yn dra diolchgar i unrhyw ddinesydd os medra ddanfon y copi coll i mi. Ni fydd ar ei golled.*

*Efallai y byddai Dinefwyr alltud y brifddinas yn falch i glywed fod* Llais Dinefwr *yn blaguro ym Mlaenau Tywi.*

*Yn gywir iawn,*

*JOHN JENKINS*




*"Oes yna fwy i fywyd na neidio dros fences, Sophocles?"*

**CYMRY'R FRO**



**Gorffennaf 19-22, 25 a 26**
**Neuadd Eglwys Bedyddwyr**
**Heol Stanwell**
**PENARTH**
*Croeso i Bawb*

O siopau llyfrau led-led Cymru

**2000**
o gwestiynau

**CAMAU CANTAMIL**
**STESION CANTAMIL**
**CESTYLL CANTAMIL**




pris 65c

# PWYSIG

Os nad ydych eisoes wedi cefnogi'r Dinesydd yn ariannol carem apelio at eich caredigrwydd i sicrhau dyfodol y papur drwy anfon cyfraniad, bach neu fawr, at Drysorydd y Dinesydd, 29 The Rise, Llanishen, Caerdydd a gwneud hynny gynted ag y bo modd.

Siomedig iawn fu ymateb y capeli a'r cymdeithasau Cymraeg i'n hapêl am gyfraniadau yn y gorffennol a bu'n rhaid inni ddibynnu llawer iawn gormod ar incwm hysbysebu. Bellach mae costau argraffu ar fin codi eto a sefydliadau yn llawer llai parod i wario arian ar hysbysebu. Mawr obeithiwn y byddwch yn danfon cyfraniad at yr achos.

Disgwylir newyddion a straeon gogyfer a'r rhifyn nesa' i fod mewn llaw erbyn dechrau Gorffennaf. Dyma'r rhifyn olaf cyn y gwyliau a gobeithiwn ddosbarthu nifer o gopiau yn Eisteddfod Bro Dwyfor - rhifyn da felly i roi cyhoeddusrwydd i'ch gweithgareddau - beth am hysbyseb?



## DWY BONT

Bu Bob Richards yn weithgar iawn mewn llawer cylch yng Nghaerdydd yn enwedig gyda'r Blaid. Colled fawr i'r Brifddinas felly fydd ei ymadawiad i fyw i Sir Benfro, neu Ddyfed os liciwch chi'. Yn ddiweddar ymddangosodd llyfr a sgrifenwyd ganddo sef Two Bridges Over Menai a gyhoeddwyd gan Cyhoeddiadau ap Dafydd Cyf, 55 Lower Cathedral Rd, Caerdydd. Mae'n lyfryn hynod o ddiddorol yn rhoi cefndir adeiladu'r pontydd dros y Fenai. Ei bris yw 40c. Pob hwyl i Robin Richards yn ei ardal newydd.

**Os hoffech gael sgwrs yn Gymraeg wrth chwilio am ddarnau sbar i'ch car, ymwelwch â:**

**METELAU LLANDOW**

(ar Ystad Fasnachol Llandow, ger Llanilltud Fawr) a gofynnwch am Mr John Pugh.

**Mynwent o gerbydau a mynydd o sgrap!**
**RHIF FFÔN: LLANILLTUD FAWR 2756**



*Chris Segar gyda prototeip o'i gêm newydd.* Llun Western Mail.

# CANT AG UN

Mae dyn o Gaerffili, sydd wedi dysgu Cymraeg, wedi dyfeisio gêm eiriau newydd yn Gymraeg er mwyn helpu dysgwyr eraill estyn eu geirfa.

Ond ffeindiodd Chris Segar, is-olygydd ar y Western Mail yng Nghaerdydd, bod y Cymry Cymraeg yn hoff iawn o chwarae ei gêm, Cant ac Un, hefyd.

Meddai Chris, 30 oed, sy'n dod yn wreiddiol o Brestatyn, Sir Fflint, "Ar ôl i mi ddyfeisio fy ngêm es i ati i brofi'r gêm gyda gwahanol bobl. Ac roedd llawer o hwyl wrth ei chwarae, gyda phawb."

Cant ac Un yw enw'r gêm am fod 101 o gownteri ynddi, a chanddynt lythrennau'r wyddor Gymraeg. Mae'r chwaraewyr, o ddau i chwech ohonynt, yn defnyddio'r cownteri i ffurfio geiriau ar fwrdd. Map o Gymru mewn sgwariau yw'r bwrdd, ac mae geiriau y chwaraewyr yn croesi gyda'u gilydd ar y sgwariau. Mae pobl yn sgorio yn ôl gwerth eu llythrennau, ac yn ychwanegol wrth i'w geiriau groesi lleoedd ar y map - y mynyddoedd, trefi a chestyll o Gymru.

Sut daeth y syniad o'r gêm Cant ac Un? "Wel, rôn i am chwarae gêm gyffelyb yn Saesneg gyda fy mhlant Siân, a Giles", meddai Chris, "pan ddwedodd Siân, 'Trueni bod ni ddim yn gallu chwarae yn Gymraeg'.

"Ac roedd hi'n iawn. Doedd llythrennau'r gêm Saesneg ddim yn addas i'w chwarae yn Gymraeg - dim digon o 'w' ac 'y' dim llythrennau fel 'll' ac 'dd' ac ymlaen.

"Felly, fe benderfynon ni gyfrif pa mor aml mae gwahanol lythrennau yn digwydd yng ngeirfa'r Gymraeg, er mwyn gwneud cownteri arbennig gyda'r wyddor Gymraeg arnyn nhw.

"Wedyn daeth y syniad o wneud gêm hollol newydd wedi'i addasu yn arbennig i'r Gymraeg, gan ddefnyddio map o Gymru yn fwrdd iddi".

Fe wnaeth Chris brototeip o'r gêm, a chant ac un o gownteri, a fe brofodd ei gêm - gyda phlant yn Ysgol Gynardd Caerffili, a chyda oedolion yn yr Uned Iaith Trefforest, a chyda theuluoedd Cymraeg yn yr ardal.

Ac ar ôl iddo wella ei gynllun, fe gafodd e ddiddordeb Cwmni Triban, Aberpennar, sydd yn awr yn cynhyrchu'r gêm i'r farchnad.


Mae Chris wedi sefydlu cwmni er mwyn dosbarthu'r gêm, gyda'r enw Cynyrchiadau Caerffili. Bydd y gêm ar gael yr haf yma, a bydd ar werth mewn siopau Cymraeg, yn Eisteddfod Bro Dwyfor, ac syth oddi wrth Cynyrchiadau Caerffili, Hedd-Lys, Cresent Road, Caerffili. Pris y gem yw £2.65.

Mae Chris wedi dangos ei gêm i arbennigwyr addysg i gael eu barn amdani. "Roedd diddordeb mawr ganddyn nhw", meddai. "Fe gytunon nhw fod galw mawr yng Nghymru am gemau gwreiddiol yn Gymraeg.

'Rwy'n gobeithio y bydd Cant ac Un yn helpu llenwi'r bwlch. Ond yn bellach, gobeithio bydd pobl yn mwynhau ei chwarae".

# MAES Y PLANT

## POS CROESEIRIAU




**AR DRAWS**

1. *Mae'n anodd dod o hyd i hon mewn ysgol yn Ne Morgannwg! (4,2)*
5. *Mae plant a hipos yn hoffi chwarae yn hwn! (4)*
7. *Llong ofod yr ydych chwi'n teithio arni'r munud yma! (3)*
9. *Mae'r metel yma yn hollol farw, a dweud y gwir. (5,3)*
13. *Lle braf yn yr haf! (4,1,3)*
15. *Rhaid cael hwn mewn pennill. (3)*
17. *Gall ambell garreg wneud hyn! (4)*
19. *Ddylech chi ddim gorfod diodde hyn yn yr haf! Brrrr! (6)*

**I LAWR**

1. *Torrwch gynffon y gair, mwyn ac fe gewch chi ragor! (3)*
2. *Mae'r rhain yn peri i bobl gosi - y pethau bach. (5)*
3. *Dyma ble ddylech chi fynd yn yr haf, yn lle bod dan draed. (4)*
4. *Rhaid cael lwc i weld yr anifail sy'n cuddio yn y frawddeg hon! (2)*
6. *Hwn ddylai fod yn olaf. (5)*
8. *Dyma ble ddylai pob lleidr fod. (5)*
10. *Gair am ddesg! Tipyn o steil ynddo! (5)*
11. *Lle i fagu.*
12. *Rhaid cael cloc i fesur hwn. (5)*
14. *Does neb o Gaerdydd yn gwybod fod pentre yn cuddio yn y frawddeg hon. (4)*
16. *Hyn yw pob clown. (3)*
18. *Llwyfan yr hen frân fawr ddu oedd yn canu bas! (2)*

Atebion ar dudalen 9.

## DARLLEN MEDDYLIAU

*Dywedwch wrth eich ffrind y gellwch chi ddweud wrtho fe (neu hi) pa bryd y mae ei benblwydd, dim ond iddo fe (neu hi) wneud sym fechan. Ichi ddangos pa mor dda ydych chi, rhowch bensil a phapur i'ch ffrind a gofyn iddo ddechrau gweithio!*

*I ddechrau, dywedwch wrtho am luosogi'r mis y cafodd ei eni gyda phump! Er enghraifft, os yw wedi cael ei eni yn Ebrill (ac mae pob dyn da wedi cael ei eni yn Ebrill) rhaid iddo fe luosogi 4 gyda phump a chael 20. Yna, gofynnwch iddo fe adio 6. 20 + 6 = 26. Yna rhaid iddo fe luosogi'r cyfan a 4, 26 x 4 = 104. Nawr, rhaid iddo fe adio naw! 104 + 9 = 113. Y cam nesaf yw lluosogi gyda phump. 113 x 5 = 565. Y cam olaf yw adio dyddiad ei eni ac fe ddywedwn ni iddo gael ei eni ar Ebrill 16, felly 565 + 16 = 581. Ond nawr, rhaid i chi weithio! Gofynnwch iddo am ei ateb ac yna tynnu 165 ohono fe. 581 - 165 = 416. Nawr, manylwch ar y 416 yna, ac rwy i wedi rhannu'r ffigurau oddi wrth ei gilydd. Mae'r pedwar ar y dechrau yn rhoi rhif y mis (Ebrill) a'r 16 yn rhoi'r dyddiad! Dyna ichi dric!*

## CROESI'R AFON

Roedd ffermwr ar ei ffordd i'r dref i werthu oen a llond basged o fresych. Roedd hefyd wedi dal blaidd ac yn mynd ag e i e'r sŵ. Roedd e'n byw ar ynys oherwydd ei fod yn cadw anifeiliaid gwylltion fel bleiddiaid ac roedd ganddo fe gwrwgl bach i fynd a dod. Ond un bach yw cwrwgl, a fedre fe ddim mynd â mwy nag un peth ar y tro yn y cwrwgl. Nawr, roedd ganddo fe broblem. Pe bai e'n mynd â'r fasged fresych, fe fydda'r blaidd yn siŵr o fwyta'r oen, a phe bai e'n mynd â'r blaidd, fe fydde'r oen yn siŵr o fwyta'r bresych. Ond roedd rhaid iddo fe fynd â'r tri rywfodd i'r ochr draw. Wyddoch chi sut?

Fe gewch chi'r ateb ar dudalen 9.

**DITECTIF!**

1. Tynnwch allan y pysgodyn gan adael yr aderyn! DILFYRWMOR
2. Tynnwch allan y goeden a gadael yr anifail! DAREBWNWE
3. Tynnwch allan yr offeryn cerdd gan adael un arall! TWFFTYNLELI
4. Tynnwch allan y ddinas gan adael y wlad! PAIDALEISR
5. Tynnwch allan y mynydd gan adael yr afon! YDDLINFAW
6. Tynnwch allan y llysieuyn gan adael y ffrwyth! LOFANMOAR
7. Tynnwch allan yr arf gan adael y dilledyn! GYSCRWN
8. Tynnwch allan y ddiod gan adael y pryd bwyd! NIDDEMICO

Atebion ar dudalen 9.


**I Hysbysebu Ffôniwch: 396262**

## Hen Lyfrau yn eisiau

hen neu ail-law. Hefyd cylchgronau a phapurau. Gallwn alw i'w gweld.

**Siop y Pethe**
Aberystwyth
Dyfed

Ffôn 7120



**FFRWYTH** Pontcanna ☎ 21976

# Canolfan yr Urdd

'Steddfod lwyddianus oedd y Genedlaethol yn Llanelli i Aelwyd Caerdydd eleni eto. Ar ôl cystadlu brwd drwy gydol yr Ŵyl, fe sylweddolwyd fod yr Aelwyd o fewn 3 marc i ennill y Darian Aelwydydd. Dyfarnwyd Aelwyd Penllys (Maldwyn) yn gyntaf gyda 66 o farciau, Caerdydd yn ail gyda 63, ac Aelwyd Myrddin (Caerfyrddin) yn drydydd gyda 52 o farciau.

Dyma rhai o'r canlyniadau:-

1af Drama Aelwydydd (dan 25)
1af Cyflwyniad Llafar.
2ail Côr Aelwydydd (20-40 llais).
2ail Parti Cerdd Dant.
2ail Adrodd dan 25 (Elinor Proffit).
2ail Parti Dawns Werin.
3ydd Siarad Cyhoeddus (Wyn Mears).

CWIS DYSGWYR

Buddugoliaeth i Ysgol Uwchradd Llanishen wrth iddynt ennill y rownd derfynnol o'r Cwis Dysgwyr i Ysgolion Uwchradd. Mewn cystadleuaeth o safon uchel, fe gurwyd Ysgol Porthtywyn mewn gornest fywiog i ddod a'r tlws yn ol i Dde Morgannwg am y tro cyntaf. Llongyfarchiadau i'r dysgwyr ifanc o Lanishen.

CHWARAEON

Dyma rai o'r canlyniadau Cystadleuaeth Chwaraeon 74-75:-

AELWYDYDD

Rhwyd Bel Aelwyd Caerdydd -Ennillwyr.
Tenis Bwrdd Aelwyd Caerdydd -Ail Fuddugol.
Rygbi 7 bob ochr Aelwyd Caerdydd —Cydradd 3ydd.

YSGOLION CYNRADD

Rhwyd Bel Ysgol Cwrt yr ala -Ail Fuddugol.

Arbrawf diddorol oedd chwaraeon i ysgolion cynradd eleni - ac ar ôl y llwyddiant a gafwyd mae'n siwr y gwelwn ddatblygiad yn y cyfeiriad yma dros y blynyddoedd nesa.

**HUFEN Ia-Ia**

Ychydig o bobol a sylweddolodd mai CANOLFAN YR URDD CAERDYDD a fu yn gyfrifol am werthu Hufen Ia yn yr Eisteddfod yn Llanelli. Heb law am obeithio gwneud ychydig o elw, roedd hi'n bwysig i geisio cadw arian y Cymry yng Nghymru. Diolch i bawb a gefnogodd ein hymdrechion yn yr Wyl, drwy brynu hufen-ia.

CALENDR YR AELWYD

Nos Wener 27 Mehefin. Taith i Bontardawe (Barbaciw).
Nos Wener 5 Gorffennaf. Noson o nofio. Pwll Llandaf.
Nos Wener 18 Gorfennaf. Dawnswyr Haf (yn y Ganolfan).
Nos Wener 5 Medi. Agor tymor 1975-1976.

**CANŴ**

Cynhaliwyd dosbarth dysgu canwio yn ddiweddar i arweinwyr ieuenctid ac yno yr aeth Ian ap Dewi Warden y Ganolfan am hyfforddiant. Methiant llwyr fu yr ymgais a bu bron i'r Warden hoffus foddi ar ol i'w ganw ddod i wrthdrawiad a sardîn lloerig.




# colofn sbectol SIAN *

Beth mae 'Piccolo Castello' yn ei olygu i chi? Dyna enw gwesty bach heb fod ymhell o Ganolfan yr Urdd. Mae stori ddiddorol tu ôl i'r enw hwn, stori sy'n gysylltiedig â stori Hannibal a'i eliffantod a fygythiodd fawredd Rhufain. Pasiodd byddin Hannibal trwy bentref Bardi, a chastell yn edrych dros y pentref hwnnw yw'r Piocolo Castello neu'r - castell bychan.


Dyna'r tamaid i'w brofi, ond beth am y prif gwrs? Beth arall allwn ni gael ond cawl ynte! Fe gyfrannodd y B.B.C. i'r cawl gyda chystadleuaeth y flwyddyn - Cân Cymru - ac yna fe gawsom Eisteddfod yr Urdd. Fel y sylweddola pawb bellach, colofn ddifrifol iawn yw hon ac un sy' bob amser yn barod i gynghori. Felly awgrymaf bod yr Urdd yn llosgi'r hen dystysgrifau ac yn rhoi gwobrau ariannol yn eu lle. Fe fuasai hyn wedi setlo busnes y goron beth bynnag. Gan fod yna gymaint o ddryswch ynglŷn â phwy oedd wedi ennill gallwyd fod wedi rhannu'r wobr a rhoi hanner coron yr un iddynt! Wrth sôn am arian, gwelais hysbyseb mewn papur lleol ar gyfer "CARDIFF POLICE AUCTION". Peidiwch â boddran mynd - chewch chi ddim llawer am gopars y dyddiau hyn!

Os oes gennych arian ar ôl, yna beth am gopi o 'Amgueddfa'. Beth ydy' o? Yn ôl pamffled swyddogol ein Hamgueddfa Genedlaethol - 'The Bulletin of the National Museum of Wales published three times a year in April, August and December ... Annual Subscription 90p'.

Nid Christopher Davies a gyhoeddodd y llyfryn ond y cwmni hwn sy'n gyfrifol am gyhoeddi albwm recordiau o waith Saunders Lewis sydd ar gael yn y siopau 'nawr. Fe'i cefnogwyd gan Gyngor y Celfyddydau a'r geiriau hyn sydd ar gefn y clawr: "Published with the support of the Welsh Arts Council".

Beth am fod yn dryw i'r Iaith, Christopher?

I ble mae'r 'waiter' yna wedi diflannu!



# LLANILLTUD FAWR

## YR YSGOL FEITHRIN

Mae'n gyfnod prysur iawn i bwyllgor yr Ysgol Feithrin yn Llanilltud. Ar Fehefin 3ydd cynhaliwyd Bore Coffi, a chalonog oedd clywed gan y trefnyddion, Mrs Janice Griffiths, Mrs Jackie Wilson a Mrs Pat Jones, bod elw o dros £10 wedi ei wneud.

Ar Nos Lun, Mehefin 9fed cynhaliwyd Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol yr ysgol, ac etholwyd swyddogion newydd ar gyfer 1975-76.

Ar Nos Wener, Mehefin 13fed yn y Clwb Rygbi, Y Bontfaen, cynhaliwyd dawns gyda Edward H. Dafis.

## Y DYSGWYR

Gobeithir y bydd tymor 1975-76 yn dipyn mwy trefnus i ddysgwyr Llanilltud. Eleni, bu nifer o bobl yn dysgu Cymraeg ar wahanol lefelau - dau ar gwrs Wlpan; rhai yn mynychu dosbarth nos yn wythnosol ac yn dod i'r King's Head ar Nos Lun i ymarfer eu Cymraeg llafar; rhai yn dod i'r King's Head yn unig ac yn colli manteision dosbarth ffurfiol. Mae nifer o bobl, yn enwedig rhai o rieni plant yr Ysgol Feithrin, wedi dweud eu bod am ddechrau o'r newydd ym Mis Medi, ac mae Mrs Elinor David, sydd wedi bod yn weithgar iawn gyda dysgwyr y King's Head, yn paratoi rhestr gyflawn o ddysgwyr 1975-76 er mwyn gweld beth gellir ei drefnu ar eu cyfer.

## Y CAPEL

Pleser mawr oedd gweld, am yr ail fis yn olynol, tua hanner cant yn y gwasanaeth Cymraeg ar Fehefin 1af. Cafodd yr oedolion bregeth ragorol gan y Parch Gareth Watts, tra roedd tua dwsin o blant o dan ofal Mrs Rachel Williams a Mrs Pat Richards yn yr Ysgol Sul. Bydd y gwasanaeth nesaf ar brynhawn Sul, Gorffennaf 6ed am 2.15p.m. Croeso i bawb.

* * *

# CYMRODORION Y BARRI

Cynhaliwyd ein Cyfarfod Blynyddol ar 13 Mai, a daeth nifer o'r aelodau ynghyd i daflu cip yn ôl ar y flwyddyn a aeth heibio ac i drefnu tymor 1975-76.

Cyflwynodd Mrs Blodwen Jenkins ei hadroddiad ar raglen 1974-75, ynghyd â'r fantolen ariannol, ac 'roeddem yn llawenhau i'r flwyddyn fod yn un llwyddiannus a diddorol.

Yn anffodus, ni allai'r Llywydd, Mr John Williams, fod yn bresennol i ddiolch i'r aelodau hynny a fu'n gyfrifol am y llwyddiant, ond fe ddiolchwyd ar ei ran gan. Mr Emlyn Hughes, y Cyn-Lywydd. Diolchodd ef, yn arbennig, i Mrs Jenkins am ei diwydrwydd arferol fel ysgrifenyddes, ac i Mr Williams am ei ofal cyson fel trysorydd.

Fe eiliwyd y diolchiadau hyn gan Mr Elwyn Richards, y Llywydd newydd. Mynegodd ei falchder i'r aelodau ei anrhydeddu fel hyn, yn arbennig yn y flwyddyn pan oedd y Gymdeithas yn dathlu ei 70 mlwydd oed. Llawenydd pellach iddo oedd parodrwydd y Parch. Gareth Watts i wasanaethu fel Is-Lywydd, ac i'r prif swyddogion fodloni parhau yn eu swyddi.

Darparwyd rhaglen amrywiol ar gyfer y tymor newydd a gobeithir cael darlithiau, ffilmiau, nosweithiau adloniant. Bwriedir dathlu 'oed yr addewid' trwy i Miss Muriel Bowen-Evans baratoi llyfryn a fydd yn crynhoi'r 70 mlynedd, ac fe gyflwynir rhaglen amrywiol i'r un perwyl. Cwblheir y dathlu â chinio ar noson Ŵyl Ddewi, 1976. Bydd hyn yn arbennig o addas: 70 mlynedd yn ôl ar noson Ŵyl Ddewi, 1906 y sefydlwyd y Gymdeithas.

O.N. Yn oes y gorchwyddiant, y mae'n bleser gynnym gyhoeddi mai'r un fydd pris ein tocyn aelodaeth eleni eto - 30c. Dyna werth eich arian! Ymunwch â ni ym 1975-76!

W.B.D.


## THEATR YR YMYLON YN THEATR Y SHERMAN

SWYDDFA BOCS Y SHERMAN, HEOL SENGHENNYDD, CAERDYDD 25855 10.00a.m. - 6.00p.m.

## NOSON O FFILMIAU CYMREIG

Pedair ffilm a wnaed ar gyfer y Sinema yng Nghymru. Mae'r rhaglen yn cynnwys un o'r ffilmiau cynnar a wnaethpwyd yng Nghymru, ac un o'r rhai diweddarach.

- THE LIFE OF CHARLES PRICE
  gan William Haggar 1904
- COALS AND COURTSHIP
  gan Gwmni Theatr y Mascot Star 1921
- NOSON LAWEN
  gan Mark Lloyd 1949
- SCARSILY BELIF
  gan Wil Aaron 1974

NOS SADWRN
GORFFENNAF 5ed 7.30

THEATR YR YMYLON yn cyflwyno actores enwocaf ac anwylaf Cymru gydag actor enwocaf ac anwylaf Cymru yn

**BLESS THIS HOUSE**

RACHEL THOMAS

EYNON EVANS

Gan Eynon Evans 7fed - 12fed GORFFENNAF 7.30

THEATR YR YMYLON YN CYFLWYNO

GLYN HOUSTON

gyda Beryl Williams fel Mrs Evans

**The Day The WELSH Rose**

Drama Ysgafn gan Michael Burn

15fed - 19eg GORFFENNAF 7.30

*GYDA CHYMORTH CYNGOR CELFYDDYDAU CYMRU A CHYMDEITHAS GELFYDDYDAU DE-DDWYRAIN CYMRU*

# Eisteddfod Gadeiriol Bro Morgannwg 1975

Cynhaliwyd yr Eisteddfod hon ar y 26ed Ebrill yn neuadd gynnull Coleg Addysg y Barri drwy garedigrwydd rhadlon awdurdodau'r Coleg. Dyma'r Eisteddfod gyntaf i'w chynnal ym Mro Morgannwg ers cenedlaethau. Sefydlwyd hi dan nawdd a drwy gefnogaeth cymdeithasau Cymraeg y Fro ynghyd â Merched y Wawr a'r Clybiau cinio. Yr amcan oedd dwyn pob cymdeithas ac uned Gymraeg i gyfathrach a chymundeb â'i gilydd a chael Eisteddfod go iawn i roi i Fro Morgannwg eto ei delwedd Gymreig fel y bu gynt. Rhoi cychwyn i'r syniad yna oedd prif amcan yr Eisteddfod gan hyderu wedi'r torri trwodd fel hyn y gellir pethau mwy a gwychach yn y dyfodol. Antur newydd sbon oedd hon mewn ardal sydd wedi ei seisnigo yn llawer rhy lwyr. A ddeffroir hi i ail afael yn ei threftadaeth Gymreig? Cafwyd ymateb gweddol foddhaol i'r cais hwn yn yr Eisteddfod hon er fod peth siom oherwydd prinder cystadleuwyr llwyfan yn enwedig yn yr oedrannau ieuangaf. Disgwylid y byddai digon o gystadleuwyr o'r ysgolion cynradd ac uwchradd yn awyddus i gystadlu canys testunau o Raglen yr Urdd oedd y darnau gosodedig iddynt hwy. Rhaid cydnabod, fodd bynnag, fod y plant yn yr ysgolion cynradd ac uwchradd Cymraeg yn cael glân ddigon ar gystadlu rhwng Eisteddfodau Ysgol a'r Urdd. Yr oedd, fodd bynnag, gystadlu brwd gan y plant yn adrannau barddoniaeth a rhyddiaith âg eithrio Dysgwyr. Ni chafwyd yr ymateb a ddisgwylid oddi wrth y dosbarth hwn.

A dyma rai o'r buddugwyr yn gyntaf yn

*Adran Cerdd:-*

Unawd dan 12 oed - Angharad Rees, eto dan 15 oed - Paul Davies, eto dan 25 oed - Menna Thomas (gyda chanmoliaeth uchel); Alaw Werin o Forgannwg;

Unawd i rai dros 50 oed - Emyn Maxwell Evans. Can ysgafn fodern (unawd neu grwp) Susan George; Parti o Feibion neu Ferched (agored) - Clwb Golff Dinas Powis;

Deuawd i Blant Ysgolion Uwchradd; "Mor Dirion yw dy Drigfannau" - Lynn Daniel Ac Ann Preece, Caerdydd. Côr heb fod dan 16 o leisiau; "Pant y Fedwen" - Cor Dinas Powis.

*Adran Cerdd Dant:-*

Unawd i Blant Ysgolion Uwchradd; "Golud Cymru" - Aled Thomas, Parti Cerdd Dant; Agored - Parti Caerdydd.

*Adran Adrodd:-*

Dan 12 oed, "Enwau" (Waldo) Sally Davies, Dros 12 oed, "Ar Gyfeiliorn" (Gwenallt) - Gwyneth Lewis, Adroddiad Digri, Agored, Brynmor Jones, Caerdydd.

*I Ddysgwyr:-*

Darn o farddoniaeth, Cymru - Barbara Morgan a T.R. Thomas,

*Agored:-*

Gorffen Limerig: Enid Jones Davies ac Ann Prys Davies, Limerig am unrhyw dro trwstan - "Morlais" (nid atebodd i'w enw), Geiriau i'w canu ar unrhyw don boblogaidd - Mrs Blodwen Jenkins. Tri Thriban ar unrhyw dri lle yn y Fro - Ithel Davies,

Telyneg, "Pen-On" - Mrs Eryl Lewis, Caerdydd, Soned, "Treffleming" - Mrs Eryl Lewis eto, Englyn Digri, "Picwnen" - T. Arfon Williams, Caerdydd, Englyn, "Bro Morgannwg" - T. Arfon Williams eto Cerdd y Gadair, caeth neu rydd, "Dur" - Arwel John, Pontyberem. (4 ymgeisydd).

Yr oedd y Pwyllgor, a gyfarfu yn fuan ar ol yr Eisteddfod yn foddhaus iawn ar safon y cystadlu at ei gilydd. Yr oedd Cerdd y Gadair yn arbennig, yn waith bardd ifanc a enillodd Gadair Eisteddfod yr Urdd ddwywaith cyn hyn. Cadeiriwyd y bardd mewn seremoni urddasol yng ngofal archdderwyddol Ithel Davies, Cadeirydd y Pwyllgor, ond heb y cleddyf traddodiadol a chyflwynwyd y gadair fach iddo gan yr Ysgrifennydd Maxwell Evans i fanllefau cymeradwyol y gynulleidfa luosog ac anerchwyd ef gan Islwyn Jones, Alun Daniel, Maxwell Evans a Griffith Thomas ynghyd â'r beirniad W. Rhys Nicholas. Daeth pedwar Côr ymlaen i gystadlu yng nghystadleuaeth y Côr, sef, Tabernacl, Y Barri, Ysgol Gyfun Rhydfelen a Dinas Powis a llwyddodd John Ewart Jones o Gaerdydd i grynhoi côr y nos honno a'i ddyfarnu'n ail orau.

Wedi gosod y sylfeini fel yna eir ymlaen yn awr yn ffyddiog i ddatblygu'r Eisteddfod hon i fod yn un o fri ac effeithiolrwydd yn yr hen Fro enwog hon. A gwnaeth Cadeirydd y Pwyllgor mewn anerchiad byr apel daer am gefnogaeth yr holl Gymry a'r Cymdeithasau Cymraeg yn y Fro gyfan i'r mudiad hwn. Terfynwyd drwy ganu Hen Wlad fy Nhadau.



*Margaret Pritchard, yn cipio eiliad o hamdden yn ei bywyd prysur fel un o Gyhoeddwyr HTV yn Y Ganolfan Deledu yng Nghaerdydd. Mae Margaret a'i gwr John Copley newydd brynu ty yn Y Rhymni, Caerdydd.*

CYMDEITHAS
TAI GWYNEDD

Hon yw'r Gymdeithas sy'n darparu cartrefi i deuluoedd Gwynedd.

**Dyma'ch cyfle i fuddsoddi eich arian yng Nghymru**

Danfonwch air y funud hon at:
Dafydd Iwan, Trefnydd Tai Gwynedd,
Ffordd Llanllyfni, Penygroes, Caernarfon.
Ffôn: Penygroes (028 681) 730

**LLOG 9%**

Eisteddfod yr Urdd Y Barri a'r Fro 1977

**Caws, Gwîn ac Ocsiwn**

*Neuadd Goffa'r Barri*

Nos Wener, 4ydd Gorffennaf, 1975
7.30p.m. – Dewch yn llu!

£1.00 y tocyn

*Croeso i chi ddod a rhywbeth i'w werthu er mwyn yr achos!*

# GŴYL HAF

*Mae Cymdeithas Ddawns Werin Cymru yn cynnal, am y tro cyntaf yn y brifddinas, ŵyl o ddawnsio yn yr awyr agored. Ar brynhawn Sadwrn, Mehefin 28ed mi fydd cwmniau dawnsio gwerin Cymru yn cyfarfod yn Sain Ffagan i ddathlu haf hirfelyn, tesog (gobeithio). Bydd yr hwyl yn dechrau am 2.30 p.m. gyda rhyw ddeg o gwmniau yn crwydro ar hyd y gerddi ac yn cyfarfod am 4.00p.m. i gyd-ddawnsio o flaen yr Oriel Newydd.*

*Min nos fe fydd cyngerdd yn Neuadd y Reardon Smith lle y bydd Esme Lewis yn canu ac Owen Huw Roberts, y clocsiwr, yn perfformio. Bydd y gyngerdd yng ngofal Robin Jones, BBC. Mae'r tocynnau ar gyfer y gyngerdd ar gael o Ganolfan yr Urdd, Siop y Triban, Yr Amgueddfa Werin a Mr J.D. James, 29 Fairwater Grove West, Caerdydd.*

# Cymry'r fro

Yn ystod Gŵyl Haf Penarth, mae nifer o gymdeithasau'r dre a'r cylch yn bwriadu ymuno a'i gilydd mewn wythnos o ddiddordeb Cymreig.

Ceir arddangosfa ar ddiwylliant Cymreig y Fro, lle ceir i) eitemau ennillwyr cystadleuthau Eisteddfod y Fro, ii) braslun hanesyddol y Fro, iii) arddangosfa o gyhoeddiadau Cymraeg sy'n addas i blant a dysgwyr.

Cynhelir yr Arddangosfa yn Neuadd Eglwys y Bedyddwyr, Heol Stanwell, Penarth, Gorffennaf 19-22, a Gorffennaf 25 a 26, 9.30a.m. - 5.00p.m.

Dyma ddyddiadau eraill a fydd yn werth eu nodi yn ystod yr wythnos yma -

Dydd Sadwrn, Gorffennaf 19eg 7.30p.m. Sgwrs ar Hanes Lleol (yn Saesneg),

Dydd Sul, Gorffennaf 20ed 7.30p.m. Noson o Gerddoriaeth yng Nghapel Bethel, Heol Plassey, Penarth. (I ddechrau 8.00p.m.),

Dydd Llun, Gorffennaf 21ain 7.30p.m. Sgwrs arall ar Hanes Lleol (yn Saesneg),

Dydd Mawrth, Gorffennaf 22ain, 7.30p.m. Sgwrs ar Hanes Lleol (yn Gymraeg),

Dydd Gwener, Gorffennaf 25ain, 7.30p.m. Noson Werin - Noson o ddawns a chân - Tocynnau 30c pob un.

Dydd Sadwrn, Gorffennaf 26ain, 7.30p.m. Noson Lawen.

Mae croeso cynnes i bawb sydd a diddordeb yn y pethau uchod. Mae'r tocynnau ar werth gan B.R. Keitch, Heol Redlands, Penarth, De Morgannwg, CF6 1WG.

# MARW CYN GYFARWYDDWR GWASG

Mae rhagor rhwng gwasg a gwasg yng Nghymru, fel mewn pob gwlad arall, ond mae Gwasg William Lewis, Caerdydd wedi bod yn nodedig am flynyddoedd oherwydd glendid ei gwaith. Un o'r bobl a fu'n gyfrifol am flynyddoedd am ddiogelu'r safon yma oedd Mr Ben Jones a fu farw'n ddiweddar.

Gŵr a ddringodd drwy chwys ei wyneb i swydd bwysig oedd Mr Jones, ond fyddech chi byth yn sylweddoli hynny wrth siarad ag ef gan mor ddiymhongar yr oedd. Cafodd ei eni yn Fern-dale ac fel mwyafrif plant ei ardal, gadawodd yr ysgol a mynd i weithio yn y pwll. Ond parhaodd i ddiddori yn ei lyfrau a dringodd o'r pwll i goleg a graddio mewn cerddoriaeth. Fe fydd llawer ohonoch yn cofio amdano fel corfeistr ac organydd eglwys Sant Mair yn y dociau. Yn ddiweddarach, daeth yn gorfeistr ac yn organydd yn Newi Sant, eglwys a oedd yn agos iawn at ei galon. Fe fu'n dysgu am sbel, cyn mynd i weithio yng Ngwasg Prifysgol Rhydychen.

Hwyrach mai ei waith mwyaf gyda gwasg William Lewis oedd llywio'r Bywgraffiadur. Hyn a llawer cymwynas arall a barodd i Brifysgol Cymru ei anrhydeddu gyda gradd MA. Fe'i anrhydeddwyd â'r OBE gan y Frenhines. Mae ein cydymdeimlad â Mrs Jones yn ei galar.


## Amgueddfa Genedlaethol Cymru

## GWASANAETH I'R YSGOLION

**Gwahoddir ceisiadau am y swydd o Brif Glerc. Dylai ymgeiswyr am y swydd feddu ar brofiad yn ymwneud â chyfrifon; paratoi a thalu cyflogau; gwaith pwyllgor a hefyd dyletswyddau gweinyddol cyffredinol. Dymunir gwybodaeth ymarferol o'r Gymraeg. Cynllun blwydd-dal cyfrannol. Gwyliau blynyddol: 20 niwrnod a 10 ychwanegol ar ddyddiau gŵyl. Cyflog: £2,515 - £3,854.**

*Manylion pellach a ffurflen gais oddi wrth: Yr Ysgrifennydd, Amgueddfa Genedlaethol Cymru, Caerdydd CF1 3NP.*

**Dyddiad olaf i dderbyn ceisiadau: Dydd Gwener, 27 Mehefin, 1975.**



## Oriel

**53 Heol Siarl Caerdydd**
**Teliffon: 0222 395548**

Teitlau newydd
ar gael yn awr yn y SIOP LYFRAU

R. Cyril Hughes - CATRIN O FERAIN, £2.25
Gol Eurys Rowlands - GWAITH LEWIS MON, £5.00
Cyf A.O. Morris/Gol - D. Ellis Evans - COFIANT AGRICOLA, £3.50
John Rowlands - T. ROWLAND HUGHES, £1.00
Gwyn Williams - TWRCI A'I PHOBL, £1.95
Gol/Harri Parri a William Owen - SON DYNION AMDANYNT, £1.50
Gol/William Morris a Gomer Roberts - GWEISION GWAHANOL, 70c
William Williams - Y LLANC O ANATHOTH, 70c
Ivor W. Williams - DIM OND DEWRDER, 70c
Eirwen Mathews - COFIANT DR D.P. HOWELLS, 40c

Ad-argraffiadau:-
BRUT DINGESTOW, £2.50
T. Rowland Hughes - CHWALFA, 60c
YR OGOF, 60c
J.E. Jones - LLYFR GARDDIO, £1.25

Hefyd casgliad cynhwysfawr o LYFRAU PLANT

POSTERI CERDDI Dafydd ap Edmwnd - I WALLT MERCH, £1.00
Idris Davies - MAGGIE FACH (Saesneg), 75c

Mae catalog newydd 80 tudalen o RECORDIAU'R Gair LLAFAR i'w gael yn awr o ORIEL yn rhad ac am ddim, Anfonwch am eich copi.

# HELEN SMITH
## ar drywydd y Fedal Ryddiaith

Yn aml iawn y dyddiau hyn clywir am bobl sydd yn dysgu siarad Cymraeg ac yn wir gwelir hwy am gyfnod o rhyw flwyddyn neu ddwy yn gwneud eu gorau glas i feistroli'r iaith ond cyn croesi'r bont fel petai, maent yn rhoi'r ffidil yn y to. Nid un o'r rhain yw Helen Smith, Y Waun Caerdydd. Tybed a fu disgybl mewn ysgol Uwchradd a oedd wedi dysgu'r Gymraeg fel ail iaith mor agos at gipio'r fedal ryddiaith yn eisteddfod yr Urdd o'r blaen. Roedd Helen yn gydradd drydydd yn Llanelli eleni, yn wir erbyn hyn mae'n gydradd ail. Dechreuodd Helen ddysgu Cymraeg yn ysgol Gynradd Ton-yr-ywen o dan arweiniad Mr John Albert Evans ac erbyn iddi orffen yno roedd ganddi gryn dipyn o feistrolaeth o'r iaith, a'i phrif ddiddordeb yn y dyddiau cynnar hynny oedd dod i siarad Cymraeg. O Roeg, y daw ei mam ac er fod ei thad yn gallu cryn dipyn ar yr iaith nid yw'n ffyddiog iawn i siarad Cymraeg bob amser. Ef oedd yn gyfrifol gyda llaw am gynhyrchu Atlas y Cymry a diddorol yw sylweddoli fod Helen wedi bod yn gryn help iddo i gyfieithu darnau i'r Gymraeg. Yn wir mae'n fwy na phosibl mai Helen a'i perswadiodd yn y lle cyntaf i fynd ati i gyflawni y Fath waith anferthol.

Ar ôl gadael Ton-yr-ywen aeth i ysgol Hywel yn Llandaf lle y daeth o dan ddylanwad Mrs Sybil Bevan, athrawes Gymraeg yr ysgol a buan iawn y meistrolodd yr iaith Gymraeg. Sylweddolodd yn fuan yn yr ysgol nad oedd ganddi dafodiaith a bu wrthi'n brysur yn ceisio meistroli tafodiaith - ardal Y Rhigos rwy'n meddwl. Nid oedd gan Helen fawr i ddweud wrth dafodieithoedd Seisnig Ysgol Hywel ac yn wir gwnaeth lawer o brotestio am nad oedd yr iaith Gymraeg yn cael ei phriod le yn yr ysgol. Ei nod bellach oedd gadael yr ysgol a mynd i Rydfelen i gael ei haddysg drwy gyfrwng yr iaith Gymraeg. Gwnaeth hyn ac mae hi nawr yn astudio Cymraeg yn nosbarth chwech yr ysgol. Mae hi eisioes wedi ennill ysgoloriaeth i astudio'r Gymraeg yn y Brifysgol yn Aberystwyth, a'i nod yw bod yn athrawes Gymraeg. Does dim dwywaith y gwnaiff lwyddo hefyd. Edrychwn ymlaen at glywed ei bod wedi ennill y fedal ryddiaith cyn bo hir. Daliwch ati Helen, a llongyfarchiadau mawr i chi - *Gwyrth o Ferch?*

## ATEBION Y POS CROESEIRIAU

### AR DRAWS

*1. Merch dda; 5. Llaid; 7. Byd; 9. Arian byw; 13. Glan y môr; 15. Odl; 17. Ateb; 19. Oerfel.*

### I LAWR

*1. Mwy; 2. Chwain; 3. Allan; 4. Ci; 6. Diwedd; 8. Dalfa; 10. Biwro; 11. Magfa; 14. Nebo 16. Dwl; 18. To.*

*Croesi'r afon*

*Fe aeth â'r oen i ddechre a'i adael yr ochor draw. Yna, fe ddaeth yn ôl i nôl y blaidd. Yna, fe aeth â'r oen yn ôl gydag e i nôl y bresych a'i adael ar yr ynys. Fe aeth â'r bresych draw yn y fasged a'u gadael gyda'r blaidd. Yna fe aeth yn ôl i nôl yr oen. Yna fe aeth i ben ei daith yn llawen.*

### ATEBION DITECTIF

*1. Dryw/morfil; 2. Bedwen/carw; 3. Telyn/ffliwt; 4. Paris/Eidal; 5. Wyddfa/Nil; 6. Moron/afal; 7. Gwn/crys; 8. Medd/cinio.*


## YSGOLORIAETHAU I DDRAMODWYR

Y mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn fodlon ystyried ceisiadau oddi wrth ddramodwyr sy'n ysgrifennu yn Gymraeg neu Saesneg ar gyfer dwy Ysgoloriaeth, hyd at £2,000 yr un, o Hydref 1975 ymlaen.

Bwriad y cynllun hwn yw hybu dramodwyr, sydd efallai heb gael y cyfle eto o weld perfformio'u gwaith yn broffesiynol, i ddatblygu'u doniau yng Nghymru.

Am fanylion llawn ynglŷn â'r cynllun hwn a'i amodau ymgysyllter â'r *Adran Ddrama, Cyngor Celfyddydau Cymru, Stryd yr Amgueddfa, Caerdydd. Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yw 30 Mehefin.*

# NEWYDDION CWM RHYMNI



### CRONFA'R MILIWN

Erbyn hyn mae blwyddyn gron wedi mynd heibio oddiar y cyfarfod a gynhaliwyd yn Neuadd y Parc, Caerffili, i lansio ymgyrch yn y Cwm i sicrhau cyfraniad at Gronfa Mil o Filoedd yr Eisteddfod Genedlaethol. Yn y cyfamser mae gweithwyr brwd ym mhob ardal o'r Cwm wedi bod wrthi'n gyson yn casglu cyfraniadau unigol ac yn trefnu llu o weithgareddau i gyrraedd y nod. Uchafbwynt y flwyddyn fydd noson goffi a gynhelir am 7.30p.m. ar nos Sadwrn, Gorffennaf 12, yn Neuadd y Parc i gyflwyno siec i'r Cyn-Archdderwydd Gwyndaf a Mr T.W. Thomas, Pentyrch, Trysorydd yr Eisteddfod. Rhoddir eitemau gan Gor Cerdd Dant Caerdydd, dan arweiniad Lisa Erfyl, ac estynnir gwahoddiad cynnes i bawb o garedigion yr Eisteddfod i fod yn bresennol.

### CYMANFA'R PLANT

Roedd capel Moreia, Rhymni, dan ei sang ar achlysur Cymanfa Ganu Flynyddol ysgolion Cynradd Cymraeg y cylch. Amheuthun oedd cael clywed y plant, dros 500 ohonynt, yn ymateb i arweiniad ysbrydoledig Glyn Jones, arweinydd Cor Meibion Pendyrus. Nid oes sail i'r honiad, ychwaith, fod y plant wedi canu'n arbennig o dda yn unig am fod prifathro newydd Rhydfelen, Ifan Wyn Williams yn y gynulleidfa! Llywyddwyd y cyfarfod gan y Parchedig Maldwyn John, Rhymni, a rhoddwyd anerchiad fer i'r plant gan y Parchedig Idris Davies, Tredegar. Yr organydd oedd Mr Gwilym Morris, Rhymni.

### NOSON GOFFI

Cynhaliwyd noson goffi arbennig iawn yn festri Bethel, Caerffili a drefnwyd gan y Chwaeroliaeth. Ar ôl gwledda ar y danteithion blasus aeth y gwesteion i'r capel lle cyflwynwyd anrhegion gan y gweinidog y Parchedig Gwilym Morris, i dri o ffyddloniaid yr achos - Mrs Ceridwen Jones a fu'n weithgar iawn fel diacones ers 1945, Mrs Ann Jenkins a fu'n gwasanaethu wrth yr organ ers 1942 a Mr W.J. Richards a fu'n ddiacon a chodwr canu ers dros 25 mlynedd. Talwyd teyrnged i'r tri hefyd ar lafar ac ar gân gydag eitemau gan chwiorydd y capel a Mr Tom Morris.

### GWYDDONWYR IFAINC

Llongyfarchiadau i blant dosbarth 8 Ysgol Gymraeg Senghennydd a'u hathro Gwyn Jones ar eu llwyddiant yn ennill y wobr gyntaf yn Eisteddfod Llanelli yn yr adran wyddonol i blant dan 12. Seiliwyd eu gwaith ar astudiaeth fanwl o'r defnydd a wneir o bob adeilad ym mhentref Senghennydd. Golygodd hyn lawer iawn o waith ymarferol i'r plant ac maent i'w canmol am gyrraedd safon mor uchel.

### STEDDFOD Y BONT

Llongyfarchiadau hefyd i Mrs Elinor H. Richards ar iddi ennill y wobr gyntaf yn Eisteddfod Pontrhydfendigaid am gasgliad o storiau i blant. Nid dyma'r tro cyntaf i Mrs Richards ennill yn yr Eisteddfod hon a gobeithiwn y gwelwn ni gyhoeddi'r storiau'n gyfrol yn y dyfodol agos.

### AELWYD CAERFFILI

Mae tymor yr haf eleni yn un prysur iawn i aelodau o Aelwyd Caerffili. Yn ogystal a chynnal gorchestion peldroed a phelrwyd gydag Aelwydydd Bargoed a Rhisca trefnwyd heic noddedig dros Fynydd Rhydri gyda'r elw at Gronfa Ysgol Rhydfelen i helpu sefydlu tref newydd yn Ethiopia, ac ymwelwyd â chlwb i blant methedig i gynnal twmpath dawns. Ar hyn o bryd mae'r aelodau'n edrych ymlaen at benwythnos yn hostel ieuenctid Ceinewydd a discotec yn yr Aelwyd i gloi'r flwyddyn ar nodyn uchel (gydag ymddiheuriadau i drigolion cyfagos).

**FFIDILAU, FIOLAU, SODDGRYTHAU, A THANNAU BAS. YN EISIAU.** Ysgrifennwch gyda manylion llawn i focs rhif 05.

Y Dinesydd
55 Heol Gadeiriol Isa,
Caerdydd CF1 8LW

# NEWYDDION

### GŴYL YR YSGOL SUL

Cafwyd diwrnod arbennig iawn yn Ebeneser ar ddydd Sul Mai 18fed. Yn y bore roedd gwasanaeth gan y plant lleia' ac ar y diwedd cyflwynwyd copi o'r Testament Newydd i bob un o blant Ebeneser gan y Gweinidog y Parch Emlyn Jenkins.

Yn hytrach na mynd adre i ginio gwahoddwyd pawb i aros yn y capel gan fod y gwragedd wedi paratoi cinio blasus i bawb. Yn yr hwyr cafwyd gwasanaeth gan y bobl ifanc a gweddill yr Ysgol Sul. Diwrnod arbennig o lwyddiannus a hyderir y daw hyn yn ddigwyddiad blynyddol.

### CYMDEITHAS YR IAITH GYMRAEG

Cynhelir Rali Addysg yn Adeilad Celfyddydau'r Brifysgol yng Nghaerdydd ar ddydd Sadwrn Mehefin 28 am 2 o'r gloch. Y siaradwyr fydd Ned Tomos, Owen John Thomas a Cynnog Davies.

### PYSGOTWR

Dewiswyd Les Thomas, Manor Way Caerdydd yn aelod o dim Cymreig y Pysgotwyr Pluen. Chwe aelod sy'n y tim ac roedd 120 yn ceisio am le.

### CYFARFOD ARBENNIG

Cynhelir cyfarfod arbennig yng Nghapel Thomas William, Bethesda'r Fro am dri o'r gloch ar Gorffennaf 20 fed i ddathlu penblwydd y capel yn 172 o flynyddoedd oed. Mae 6 mlynedd bellach ers pan ail agorwyd y capel gan y llu awyr.

**I HYSBYSEBU**
**Ffôn : Caerdydd**
**396262**

# DU A GWYN FY MYD

Roedd hi'n hen bryd gneud rwbath. Roedd o wedi bod yn yr un stâd ers 4 blynedd - yn fudur ac yn felyn - mwy budur na melyn.

"Pa liw wti isho fo?" medda fi wrth y wraig, ar fore Iau laf o Fai.

"Du a gwyn" oedd yr ateb o grombil y Gardian.

"Mi edrychith yn neis" medda fi "walia du a ffenestri gwyn. Mi fydd pobol yn ciwio i'w weld o."

Dim ateb o'r dudalen chwaraeon. Rhy gynnar am jocs ella.

"Oreit, walia gwyn a ffenestri du amdani. Pwy gawn ni i neud o? Mae na beintiwrs clyfar drws nesa - beth am ofyn iddy nhw!"

"Chdi" medda'r Gardian.

"Iawn, ofynna i iddy nhw."

"Chdi, i beintio'r ty" medda'r Gardian, gan blygu hun yn dwt

Ac felly y bu. Y peth nesa dwi'n gofio - ydi'r llwch. Y brwsh weiars yn rhwygo'r hen ryffcast a mrawd yng nghyfraith a finna yn peswch fel tasa ni wedi cael ein magu ar ddiet o faco shag a wdbeins.

Mi ges i ddianc o'r llwch i Lanelli am wythnos - ac erbyn i mi ddwad adra'n ôl roedd y got isa ar y ffenestri a'r walia yn barod am baent.

Dwi ddim yn hapus ar ben ysdol - a deud y gwir dwi ddim yn gwirioni ar fod ar i *chanol* hi - ond gan ma ar ben to roedd y corn simdda ac nid hannar ffordd i fyny'r wal - roedd rhaid dringo i'r top.

Dyma lle roeddwn i un diwrnod - pwcad o baent yn un llaw, brwsh yn llaw arall, y mreichia fi a nhrwsus i yn baent drostynt, yn sefyll ar ben yr ysdol - ofn am y mywyd. A ffrind yn pasio.

"Smai Hyw - peintio wyt ti?"

Ma'n shwr bod na atab parod i glown o osodiad felna - ac mi rhoish i un ond dim ond y bwcad baent glywodd.

Erbyn hyn ma'r gwaith wedi orffan. Ac os gai roi cyfarwyddyd i unrhyw un sy'n meddwl peintio'i dŷ i hun peidiwch!

# YR URDD '77

Nos Iau 12fed Mehefin cynhaliwyd cyfarfod yn Neuadd Goffa'r Barri i agor Cronfa Eisteddfod Genedlaethol Yr Urdd a gynhelir yn y Barri yn 1977. Roedd y noson yn gyfle i aelodau'r Pwyllgor Gwaith gyd gyfarfod yn gymdeithasol, a gwahoddwyd nifer o ddynion blaenllaw'r cylch i ymuno yn y noson ddifyr hon. Ymhlith y gwahoddedigion arbennig oedd Llywydd yr Urdd Y Foneddiges Eirys Edwards, a Meiri Y Barri, Y Bontfaen, Penarth, a'r Fro. Croesawyd y gynulleidfa gan Elwyn Richards Cadeirydd y Pwyllgor Gwaith a chyflwynodd yr isgadeirydd Islwyn Jones, nifer o eitemau gan Dîm dawnsio Aelwyd Caerdydd, Parti'r Wenallt; cantores ifanc o Sir Benfro, ac Iwan Guy. Bydd costau'r Eisteddfod yn 1977 yn siwr o fod yn fwy na £50,000.

**Yr Academi Gymreig ag**
*(gyda chymorth Cyngor Celfyddydau Cymru)*

CYNLLUN Y GEIRIADUR
Gwahoddir ceisiadau am swydd
**Cynorthwywr Ymchwil**

i gynorthwyo Golygydd Geiriadur Saesneg/Cymraeg yr Academi Gymreig.

Disgwylir i'r ymgeisydd llwyddiannus fod yn raddedig gydag Anrhydedd yn y Gymraeg neu Astudiaethau Celtaidd neu Ieithyddiaeth neu gyda chymhwyster cyfuwch. Rhaid iddo fod yn hyddysg yn y Gymraeg a bod yn barod i ymchwilio i'w geirfa.

Cyflog ar raddfa £2,118 - £3,285 yn ôl oed a phrofiad. Dyddiad olaf derbyn ceisiadau 7 Gorffennaf 1975,

*Am fanylion pellach anfoner at Ysgrifennydd yr Academi Gymreig, 9 Stryd yr Amgueddfa, Caerdydd, CF1 3NX.*

O 'RWY'N GYMRO GOL-EU-EDIG!




**SYTHWCH Y SEFYLLFA**
**Tâl Aelodaeth £7.00**
**Athrawon Blwyddyn Cyntaf £3.50**

UCAC

**UNDEB CENEDLAETHOL ATHRAWON CYMRU**

**11, Gordon Road, Caerdydd,**

**CF2 3AJ. Tel. 24692**

# ARDDANGOSFA DDIDDOROL



*Gwilym Evans a Lawrence Edwards o'r Amgueddfa Werin yn ailbaentio trol o Ddeganwy, Gwynedd ar gyfer yr arddangosfa.*

Mewn Arddangosfa a drefnir gan Gymdeithas Amaethyddol Frenhinol Cymru, bydd yr Amgueddfa Werin yn arddangos nifer o beiriannau ac offer trwm a ddaeth yn gyffredin ar ffermydd Cymru yn ystod rhan olaf y ganrif ddiwethaf a dechrau'r ganrif hon. Yn y casgliad ceisir dangos effaith cwmnïau masnachol Lloegr a rhai tramor ar ddatblygiad technolegol offer a pheiriannau amaethyddol.

## OFFER TRIN Y TIR

Dangosir enghreifftiau o wahanol erydr a wnaed gan gwmnïau o Loegr; yr aradr un-gwys, aradr ddwbl ac aradr un ffordd. Y maent yn dangos y newid a fu yn y defnydd o hen erydr a wnaed neu a addaswyd gan grefftwyr lleol.

Dangosir hefyd offer llyfnu a hau yn ogystal ag offer plannu a thynnu tatws. Daw'r peiriant tynnu tatws o Fro Morgannwg ac fe'i gwnaed yn nechrau'r ganrif hon gan gwmni Powell Brothers & Whitaker, Wrecsam. Enghraifft bellach o beiriant a wnaed yng Nghymru yw'r dril hau rwdins, sef gwaith ffowndri J. Williams, Rhuddlan.

## CYNAEAFU

Erbyn diwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg, daeth y peiriant medi yn offeryn pwysig ar lawer o ffermydd Cymru. Dangosir un enghraifft o beiriant a fewnforiwyd i Brydain, ac a ddefnyddid ym Mhentre'r-felin ger Cricieth, Gwynedd. Ond wrth gwrs nid oedd pob ffermwr yn medru fforddio prynu'r peiriannau hyn, a manteisiodd llawer o ffermwyr ar y defnydd o beiriannau lladd gwair drwy osod ychwanegiadau arbennig ar y peiriant i fedi ŷd yn ogystal. Datblygiad pellach yn y dulliau o gynaeafu ar ddechrau'r ganrif hon oedd y peiriant medi a rwymai'r ŷd yn ysgubau hefyd. Parhawyd i ddefnyddio'r math o beiriant a welir yn yr Arddangosfa hyd at bum degau'r ganrif hon, ac y mae yna enghreifftiau ohono yn cael ei ddefnyddio heddiw. Yn wreiddiol cynlluniwyd y peiriannau hyn ar gyfer ceffylau, ond wrth gwrs yn ddiweddarach addaswyd llawer ohonynt i'w tynnu gan dractor. Enghreifftiau

## OFFER YSGUBOR A DYRNU

Rhan bwysig o waith y fferm oedd paratoi'r cynhaeaf yn fwydydd parod i ddyn ac anifail. Arddangosir esiamplau o beiriant malu bwydydd anifeiliaid, peiriannau torri gwellt, a melin eithin a wnaed gan gwmni Charles Pickering, Pwllheli, Gwynedd. Gwelir hefyd enghraifft bellach o beiriant malu rwdins a wnaed gan gwmni Powell, Wrecsam, sydd eto yn dangos pwysigrwydd y cwmnïau hyn yn wyneb cystadleuaeth ffyrnig cwmnïau masnachol Lloegr. Wrth gwrs, rhan annatod o weithgarwch gaeafol fferm oedd y nithio a'r dyrnu a cheir enghreifftiau o nithiwr a dyrnwr bach ysgubor, y naill o Drelái, Caerdydd a'r llall o Ddyfed.

Pinacl y gweithgarwch tymhorol oedd y diwrnod dyrnu, pan ddeuai'r dyrnwr mawr o gwmpas y ffermydd i ddyrnu. Dangosir peiriant dyrnu symudol yn ogystal â pheiriant tracsion. Fel rheol, neulltuid y gwaith a'r offer hyn i gontractwr lleol a fyddai'n gyfrifol am y gylchdaith ddyrnu flynyddol. Daw'r peiriant dyrnu o fferm Pen-marc, Bro Morgannwg ac fe berthyn yr injan tractsion i Adran Ddiwydiant Amgueddfa Genedlaethol Cymru.

Ychwanegiadau pwysig at yr uned ddyrnu a arddangosir yw'r rhwymwr gwellt a'r dyrnwr. Dengys hyn ddatblygiad y peiriannau hyn a'r newid a fu o ddechrau'r 20fed ganrif hyd at yr Ail Ryfel Byd. Gwnaed y rhwymwr gwellt gan gwmni Massey-Harris, ond perthyn y dyrnwr i draddodiad gwneuthurwyr peiriannau amaethyddol gogledd Cymru. Fe'i gwnaed tua 1941 gan y Brodyr Jones, yr Wyddgrug.


## YN EISIAU

ATHRAWES AM DDAU FORE I YSGOL FEITHRIN LLANFIHANGEL-AR-ELAI.

FFÔN : CAERDYDD 594387
NEU CAERDYDD 593782



AMGUEDDFA WERIN CYMRU

## NOSON ANTERLIWT, CÂN A DAWNS YN YR AWYR AGORED

(dan nawdd y Cyngor Llyfrau a Chymdeithas Celfyddydau y De–ddwyrain)

Perfformiad ar wagen o Dri Chryfion Byd, Twm o'r Nant gan gwmni Lleisiau Llên, dan gyfarwyddyd Norah Isaac

NOS WENER, GORFFENNAF 11, 1975 am 7·30

Mynediad trwy docyn yn unig yn cynnwys lluniaeth

£1 y pen, £2 am docyn teulu

# TRO MEWN TREN

Efallai y byddai'n syniad da i'r Dinesydd redeg cystadleuaeth i gymdeithasau a mudiadau Cymraeg Caerdydd a'r cylch am y syniad mwyaf gwreiddiol am ddull o godi arian.

Rwyn credu y byddai cais pwyllgor ysgolion meithrin De Morgannwg yn ennill lle blaenllaw am ei mentr ddiweddaraf sef llogi tren am y dydd o'r Barri trwy Gaerdydd i Lundain ar Sadwrn Hydref 18, 1975.

Bydd y tren yn cychwyn am 7.30 y bore, yn cyrraedd Llundain mewn pryd i goffi am 10.30 yna bydd rhyddid i ymweld a holl amrywiaeth golygfeydd Llundain - adeiladau hanesyddol, canolfannau diwylliannol, y Senedd Brydeinig, theatrau, siopau, y sioe foduron, tai bwyta .... hyd 8 o'r gloch y nos pan ddychwelwn yn ol adre.' Cost y daith, sydd bron yn hanner pris tocyn arferol fydd £3,45 (£2.60 plant ysgol) o'r Barri a £3.25 (£2.50) o Gaerdydd. Mae'r pris yma'n cynnwys yswiriant llawn.

Rhaid brysio i gael tocyn - dim ond lle i 800 fydd ar y tren. Dewch a'ch ffrindiau a'ch teulu a'ch cymdogion. Croeso i bawb.

Tocynnau ar gael oddi wrth Ann Saer Caerdydd 562756, Lois Bowen Caerdydd 594296 Tegwen Evans Caerdydd 754559.

# *O'r Dref i'r Wlad*

Ar ôl chwe blynedd fel Prif Glerc yn adran ysgolion yr Amgueddfa Genedlaethol, y mae Mr Eryl Roberts wedi symud i'r Amgueddfa Werin yn Sain Ffagan fel Swyddog Sefydliad. Bu yn Sain Ffagan am gyfnod o'r blaen fel dirprwy swyddog gweinyddol. Brodor o'r Gaerwen yw Mr Roberts ac y mae'n adnabyddus fel adroddwr a beirniad adrodd. Y mae hefyd yn weithgar gyda'r Urdd yn y brifddinas, ac yn gweithredu fel Is-Warden rhan amser yn y Ganolfan.

* * *

Apwyntiad arall at staff yr Amgueddfa yw Walter Jones, sy'n enedigol o Gei Newydd, Dyfed. Y mae'n olynu Arwyn Lloyd-Hughes fel Swyddog Ysgolion. Y mae gan Mr Jones brofiad eang fel athro hanes yn Aberdâr, Ferndale, Ardudwy a Thonyrefail. Bydd yn gyfrifol am y cysylltiad rhwng yr Amgueddfa Werin a'r ysgolion.

* * *

Yn ddiweddar ymunodd aelod newydd arall â staff yr Amgueddfa Werin. Ar y trydydd o Fai, yn Ysbyty Dewi Sant, ganwyd Dafydd William, sef mab i Eurwyn a Mary Wiliam o Gastell Sain Ffagan. Nid yw'r tâl mynediad o 10c yn cynnwys ei weld ef, ond ceir mynediad yn rhad i bartïon addysgiadol a drefnwyd ymlaen llaw.



*Parti cyd adrodd Ysgol Heol y Celyn i ddysgwyr odan 12oed fu'n fuddugol yn Llanelli.*


## GWESTY PLAS MAENAN

Gwesty Cymreig Cyntaf Cymru

- NOSON LAWEN draddodiadol gyda bwydydd Cymreig, medd, gwin cartref, difyrrwch gyda'r delyn etc.
- YSTAFELL FWYTA lle cewch fwydydd nodweddiadol a gwasanaeth gyda gwên.
- BARIAU cyhoeddus a golygfeydd godidog o Ddyffryn Conwy.
- POB LLOFT gyda ystafell ymolchi breifat, ffôn teledu offer gwneud te etc.
- CYMRAEG yw prif iaith Plas Maenan.
- TELERAU ISEL ar gyfer penwythnosau'r qaeaf.
- CYFARWYDDWYR Enid ac Alan Wyn Jones, gynt o Rhiwbeina.

Ffôn : DOLGARROG 232



## SIOP Y TRIBAN

- Yr unig siop ag ynddi restr lawn o Gardiau Cyfarch Cymraeg.
- Y detholiad gorau yng Ngnaerdydd o lyfrau Cymraeg a llyfrau am Gymru.

**6 Wyndham Arcade, Caerdydd.**

Ffôn : 30042



## GORFFWYSWCH - YMLACIWCH



**CERBYDAU WENALLT**

*(Perchennog J.M. CROOKES)*

Cerbydau moethus gyda 20-51 o seddau i'w hurio

**SWYDDFA DOCYNNAU**

**Ffôn Caerdydd 31174**

Gwasanaeth ateb pedair · awr ar hugain

WHITTLE ROAD, LECKWITH ESTATE, CAERDYDD.


*Cyhoeddwyd gan Bwyllgor Y Dinesydd. Argraffwyd gan Gyhoeddwyr Cleglen Cyf, 134 Ffordd Parc Ninian, Caerdydd; ffôn: 28917. Hysbysebu gan Gyhoeddiadau ap Dafydd Cyf, 55 Heol Eglwys Gadeiriol Isa, Caerdydd; ffôn: 396262.*